**CYNRADD**

## Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn YSGOL CAE TOP

| |
|---|
| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 1** |
| Yn dilyn ein proses Hunan Arfarnu rydym wedi dod i'r farn bod disgyblion Ysgol Cae Top yn cyflawni safonau da, {gydag agweddau rhagorol i'w gweld ar adegau,} o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau mewn Addysg Grefyddol.<br>Mae cymhelliant gweithio positif drwy'r ysgol, gyda'r gwaith diweddar ar Lais Y Plentyn, a meddylfryd Y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm Newydd 2008 yn CA2 yn cyfrannu'n helaeth at yr ethos gynhyrchiol yma.<br>Mae cynnydd da wedi ei wneud wrth astudio cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang, gyda'r ysgol yn cael eu gwahodd i gyflwyno eu gwaith parthed a "E-twinning" mewn cynhadledd "How To Get Started with The International Dimention" a drefnwyd gan y Cyngor Prydeinig, fel enghraifft o arfer dda. Mae gwaith yr athrawes CPA yn CA2 hefyd yn elfen rhagorol yn y maes.<br>Mae plant Ysgol Cae Top yn gwerthfawrogi diwylliannau a thraddodiadau eraill, teimlwn fod yr elfen yma yn dangos agweddau rhagorol yn yr ysgol. Gyda 27% o blant yr ysgol yn dod o wledydd tramor, mae ganddom gysylltiadau real gyda theuluoedd sydd ag amrywiaeth o draddodiadau a chrefyddau, a chyda'r Ganolfan Saesneg Fel Iaith Ychwanegol {SIY}ar gyfer Arfon wedi ei leoli yn Ysgol Cae Top mae cyfleoedd amrywiol i fanteisio ar yr ethos unigryw drwy'r ysgol.<br>Mae amryw o sefydliadau yn ymweld a'r ysgol er mwyn profi'r ethos aml-ddiwylliannol effeithiol sydd ganddom. {ee – myfyrwyr lefel A, Ysgol Y Creuddyn}<br>Unwaith eto, oherwydd natur aml-ddiwylliannol yr ysgol, mae'r plant yn ymateb yn aeddfed ac yn sensitif i gysyniadau megis goddefgarwch, cyfiawnder a thegwch, ac mae eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol, {yn y gwersi ac yn y Gwasanaethau} yn dda.<br>Mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol ac yn bwrpasol yn rheolaidd, gan ddangos parch at ei gilydd ac eraill. Mae ganddynt werthfawrogiad da iawn o gredoau a thraddodiadau eraill yn ogystal a Christnogaeth. Credwn fod hyn yn un agwedd rhagorol o fywyd yr ysgol.<br>Maent yn cydberthnasu yn gyfeillgar a chwrtais gyda'i gilydd a gydag oedolion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Ymagweddant yn bositif i arweiniad ar pob lefel yn yr ysgol, ac mae'r agwedd a'r disgyblaeth bositif a welir gan y plant yn gymorth i hyrwyddo ymddygiad da. Maent yn ymgymryd a chyfrifoldebau yn eiddgar ac maent yn barod i gyfrannu'n frwdfrydig tuag at bywyd yr ysgol a'r digwyddiadau cymunedol amrywiol y mae'r ysgol yn ymrwymo iddynt.<br>Mae Cymuned Ddysgu hapus, effeithiol a gweithgar i'w gael yn yr ysgol. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| Parhau i feithrin yr ethos bositif yn yr ysgol gan sicrhau ei fod yn trosglwyddo gyda ni i'r adeilad newydd !<br><br>Cynnal safonau cyflawniad effeithiol y disgyblion, gan ganolbwyntio yn benodol ar yr elfen ysbrydol. |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| |
|---|
| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 1** |
| Mae system hunan arfarnu'r ysgol, a'r adroddiadau perthnasol yn dangos bod yr addysgu a'r hyfforddi oddi fewn i'r maes Addysg Grefyddol yn Ysgol Cae Top yn dda gydag agweddau rhagorol ar adegau.<br>Mae perthynas positif a chynhaliol yn bodoli rhwng y staff a'r plant. Meithrinir amgylchedd addysgol parchus o gyd weithredu a chefnogaeth sydd yn hybu dysgu effeithiol.<br>**Mae 27% o blant yr ysgol yn dod o wledydd tramor, gyda gwahanol grefyddau, ac 14 o wahanol wledydd yn cael eu cynrychioli yn yr ysgol, yn ogystal a 17 o wahanol** |

**ieithoedd yn cael eu siarad yn ein cartrefi.**

Mae Ysgol Cae Top yn gymuned aml-ddiwylliannol hapus a chartrefol, does dim gwahaniaethu yn digwydd ar sail, rhyw, hil nac anabled.

Trafodir materion megis hiliaeth, gwahaniaeth a chyd-ddibyniaeth yn y gwasanaethau, oddi fewn sesiynau amser cylch, ac oddi fewn unedau gwaith penodol.

Manteisir ar ein natur aml-ddiwylliannol drwy wahodd rhieni o wahanol gefndiroedd, sydd gyda gwahanol grefyddau a thraddodiadau, i mewn i'r ysgol er mwyn siarad / gweithio gyda'r plant. Golyga hyn fod agweddau cyfle cyfartal, hiliaeth, gwahaniaethau a chyd-ddibyniaeth yn real ac yn fwy i'r plant, ac bod dealltwriaeth effeithiol yn bodoli ymysg pawb yn yr ysgol.

Yn ogystal a'r cyfleoedd sydd ynghlwm a'r gwaith yn y dosbarth manteisir ar wasanaethau boreol ac ymweliadau gan grefyddwyr, yn ogystal a theuluoedd sydd yn ymwneud a'r ysgol, er mwyn datblygu agweddau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. ee – Y Parch. Dr. Sue Jones yn cynnal gwasaneth Christnogol pob dydd Mercher, teulu Mwslemaidd yn dod i'r ysgol er mwyn trafod eu crefydd a'i traddodiadau.

Mae'r plant Bl. 2, 5 a 6 hefyd yn ymweld a'r Gadeirlan a'r Mosque yn flynyddol.

Mae'r plant yn parchu naws y gwasanaethau ac yn cyfrannu'n rheolaidd gyda threfn penodol er mwyn rhoi cyfleoedd i'r plant arwain. Bydd cyfle iddynt fyfyrio ar eu credoau ac ar werthoedd penodol, ac fe roddir sylw penodol i wahanol grefyddau yn rheoliadd, yn y gwasanaethau ac yn y gwaith dosbarth.

Mae gan yr ysgol amcanion clir o ran datblygiad moesol y plant. Ymdrechir i'w gwireddu yn y cydberthynas gyfeillgar sydd yn bodoli rhwng y staff, y disgyblion, a'r rhieni, ac yn yr ethos ofalgar, aml-ddiwylliannol sydd yn bodoli yn ein cymuned ddysgu. Mae plant yn deall y gwahaniaeth rhwng da a drwg, ac yn gwybod ystyr gwerthoedd megis gonestrwydd a thegwch.

Rhoddir pwyslais ar ofynion ABACh ym mywyd pob dydd yr ysgol yn ogystal ac yn y cynllunio, ac mae'r sesiynau Amser Cylch yn rhoi cyfle i'r plant ymdrin a materion personol a chymdeithasol.

Mae rol ein Cyngor Ysgol wedi datblygu dros y 3 / 4 mlynedd diwethaf, a chyda ein Grwp Effeithiolrwydd Ysgol yn ogystal, mae cyfleoedd i'r plant leisio eu barn a bod yn aelodau cyflawn o'n cymuned ddysgu yn yr ysgol yn dytblygu'n dda iawn.

Mae elfennau perthnasol o Ddinasyddiaeth Fyd Eang hefyd i'w weld ar draws yr ysgol. ee – thema cynaliadwyaeth Bl. 5 / masnach deg Bl. 6 / agweddau cyfoeth a thlodi Bl. 5 a 6 / ymwybyddiaeth o'r ardal leol Bl. 2 a 5 / astudiaeth India Bl. 4.

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned gyda'r plant yn cyfrannu at ddigwyddiadau cymunedol, ee, canu yn yr ysbyty ac mewn cartrefi'r henoed, cymryd rhan yn Gwasanaeth Sul Addysg yn Y Gadeirlan.

Gwneir cyfraniadau hael i elusennau yn lleol ac yn genedlaethol, ee - British Heart Foundation, Operation Christmas Child, N.S.P.C.C, Plant Mewn Angen, a Chalon Lân.

Mae gennym Gymdeithas Cartref / Ysgol {CCY} cefnogol iawn, ac roedd hyn yn amlwg yn ddiwedar gyda'r cefnogaeth a dderbyniodd yr ysgol tra yn ceisio sicrhau ein bod yn cael adeilad newydd ar gyfer yr ysgol.

Newidwyd enw'r gymdeithas yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn cyfleu y ffaith fod pob aelod o'r staff yn rhan o'r gymdeithas. Nid oeddem yn teimlo fod "Cymdeithas Rhieni ac Athrawon" yn rhoi cydnabyddiaeth i'r cymhorthyddion sydd yn rhan o'n tîm ac sydd yn cyfrannu'n helaeth i'r gweithgareddau sydd yn cael eu trefnu. Felly "Cymdeithas Cartref / Ysgol - CCY" {Home / School Association – HSA} sydd gennym yn awr.

Mae cyswllt da rhwng y CCY a'r Corff Llywodraethol, gyda Rhiant Lywodraethwr hefyd yn aelod o'r CCY. Enghraifft o hyn yw'r ffaith ein bod wedi uno'r Cyfarfodydd Blynyddol yn ddiweddar.

**Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?**

Parhau gyda'r arferion effeithiol a nodwyd uchod, gan ganolbwyntio ar ddatblygu agweddau ysbrydol y plant.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad:** | 03:04:09 |
| **Arwyddwyd: (Pennaeth)** | R Howard Hughes |